

TGAU ASTUDIAETHAU'R CYFRYNGAU



**Crynodeb o'r penderfyniadau a dadansoddiad
o'r ymatebion i'n hymgyngoriad ar ddiwygio
TGAU Astudiaethau'r Cyfryngau i'w haddysgu
am y tro cyntaf ym mis Medi 2017**

Crynodeb o'r penderfyniadau a dadansoddiad o'r ymatebion i'n hymgyngoriad ar ddiwygio TGAU Astudio'r Cyfryngau i'w haddysgu am y tro cyntaf yn 2017

Crynodeb Gweithredol

Rhwng 4 Ebrill a 15 Mai 2016, ymgynghorodd Cymwysterau Cymru ar gynigion ar gyfer cymhwyster TGAU diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau i'w Gymeradwyo i'w addysgu am y tro cyntaf yng Nghymru o fis Medi 2017. Mae copi o gynigion a chwestiynau'r ymgynghoriad ar gael yn [linc yma](#).

Ym mis Gorffennaf 2016, gwnaethom gyhoeddi *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Astudio'r Cyfryngau (2016)*¹, a nododd y gofynion manwl ar gyfer sut y dylid dylunio ac asesu'r cymhwyster diwygiedig. Caiff y gofynion eu llywio gan yr ymatebion i'n hymgyngoriad ar-lein a chan safbwyntiau a fynegwyd gan ddysgwyr drwy ymarfer ymgysylltu ategol.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad ar y cynigion ac yn egluro'r penderfyniadau a wnaed gennym o ystyried yr ymatebion hyn, a adlewyrchir yn y *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Astudio'r Cyfryngau (2016)*.

Cefndir

Caiff y cymhwyster TGAU Astudio'r Cyfryngau ei ddiwygio yng Nghymru i'w addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2017, fel rhan o raglen ehangach o ddiwygiadau i gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch. Yr unig gorff dyfarnu a fydd yn datblygu ac yn cynnig y cymhwyster TGAU diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru fydd CBAC, gan mai dyma'r unig gorff dyfarnu sydd wedi cytuno i ddatblygu cymwysterau TGAU diwygiedig wedi'u cynllunio'n benodol i'w dyfarnu yng Nghymru.

Datblygwyd y cynigion y gwnaethom ymgynghori arnynt drwy ymgysylltu â nifer o randdeiliaid, gan gynnwys corff dyfarnu CBAC, ysgolion a sefydliadau addysg bellach (SABau), sefydliadau addysg uwch (SAUau) a Llywodraeth Cymru).

Crynodeb o'r cynigion a'r penderfyniadau

Nodau ac Amcanion

Cynigiwyd cyfres o nodau ac amcanion gennym ar gyfer y cymhwyster diwygiedig. Yn y Meini Prawf Cymeradwyo, rydym wedi gwneud rhai mân ddiwygiadau i eiriad terfynol y nodau a'r amcanion pwnc er mwyn gwneud y datganiadau yn fwy eglur.

Cynnwys Pwnc

Cynigiwyd cyfres o ofynion gwybodaeth a dealltwriaeth gennym ar gyfer y cymhwyster diwygiedig. Yn y Meini Prawf Cymeradwyo, rydym wedi ychwanegu manylion ychwanegol at y cynnwys pwnc.

¹ [Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Astudio'r Cyfryngau](#)

Cynhyrchion y Cyfryngau

Rydym wedi mabwysiadu'r cynhyrchion y cyfryngau arfaethedig y gwnaethom ymgynghori arnynt.

Sgiliau

Gwnaethom gynnig y manylion ar gyfer y gofynion sgiliau o fewn y cymhwyster diwygiedig. Rydym wedi penderfynu gwneud mân ddiwygiadau i'r rhain a adlewyrchir yn y Meini Prawf Cymeradwyo.

Amcanion Asesu

Mabwysiadwyd yr amcanion asesu a'r pwysoliadau arfaethedig yr ymgynghorwyd arnynt.

Asesu

Fel y cynigiwyd gennym, ni fydd y cymhwyster yn gymhwyster haenog a chaiff ei asesu gan ddefnyddio'r dulliau yr ymgynghorwyd arnynt.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Cwblhaodd cyfanswm o 6 ymatebwr yr ymgynghoriad ar-lein cyfan, neu ran ohono, ar gyfer TGAU Astudio'r Cyfryngau. O'u plith, nododd y rhan fwyaf o ymatebwyr eu bod yn athrawon.

Nodau ac amcanion pwnc

Ar gyfer y cymhwyster TGAU diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau, gwnaethom gynnig y dylid mabwysiadu'r nodau a'r amcanion canlynol:

Rhaid i TGAU Astudio'r Cyfryngau alluogi dysgwyr i wneud y canlynol:


- meithrin sgiliau ymholi, meddwl yn feirniadol a gwneud penderfyniadau drwy ystyried materion sy'n bwysig, yn wir ac yn berthnasol i ddysgwyr ac i'r byd maent yn byw ynddo;
- meithrin eu gwerthfawrogiad a'u dealltwriaeth feirniadol o'r cyfryngau a'u rôl yn eu bywydau bob dydd;
- meithrin eu sgiliau ymarferol drwy gyfleoedd i ymgysylltu'n bersonol ac i fod yn greadigol;
- deall sut i ddefnyddio cysyniadau damcaniaethol a therminoleg arbenigol sy'n benodol i'r pwnc er mwyn dadansoddi cynhyrchion y cyfryngau a'u hamrywiol gyd-destunau;
- gwerthuso eu gwaith eu hunain a myfyrio arno.

Fel rhan o'n hymgyngoriad, gwnaethom ofyn y canlynol:

C1: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno â'r nodau pwnc arfaethedig ar gyfer y cymhwyster TGAU mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru?

Fel y dangosir yn Siart 1 isod, roedd y rhan fwyaf (83%) o ymatebwyr yn cytuno â'r nodau a'r amcanion pwnc arfaethedig, ac nid oedd gweddill yr ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno.

Siart 1. Ymatebion i gwestiwn 1 yr ymgynghoriad ar TGAU Astudio'r Cyfryngau.



Yn dilyn yr ymgynghoriad, gwnaethom nifer o fân ddiwygiadau i'r nodau pwnc er mwyn gwella eglurder y datganiadau. Mae'r nodau a'r amcanion pwnc a adlewyrchir yn y *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Astudio'r Cyfryngau (2016)* fel a ganlyn:

1. Rhaid i fanylebau TGAU Astudio'r Cyfryngau alluogi dysgwyr i wneud y canlynol:

1.1. meithrin sgiliau meddwl yn feirniadol a gwneud penderfyniadau drwy ystyried materion sy'n bwysig, yn wir ac yn berthnasol i ddysgwyr ac i'r byd maent yn byw ynddo;

1.2. meithrin eu gwerthfawrogiad a'u dealltwriaeth o bwysigrwydd a rôl y cyfryngau yn eu bywydau bob dydd;

1.3. meithrin eu sgiliau ymarferol drwy gyfleoedd i ymgysylltu'n bersonol a chynhyrchu cyfryngau creadigol;

1.4. deall sut i ddefnyddio cysyniadau allweddol a therminoleg arbenigol sy'n benodol i'r pwnc er mwyn dadansoddi cynhyrchion y cyfryngau;

1.5. meithrin dealltwriaeth o gynhyrchion y cyfryngau mewn perthynas â'u cyd-destunau mewn diwydiant;

1.6. gwerthuso eu gwaith eu hunain a myfyrio arno.

Cynnwys Pwnc - Gwybodaeth a dealltwriaeth

Gwnaethom gynnig y dylid pennu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ofynnol yn y manylebau TGAU newydd ar gyfer Astudio'r Cyfryngau fel a ganlyn:


- sut mae ffurfiau, codau a chonfensiynau'r cyfryngau yn creu ystyrion;
- portreadu yn y cyfryngau: sut mae'r cyfryngau yn cyfleu digwyddiadau, materion, unigolion a grwpiau cymdeithasol;
- cyd-destunau cynhyrchu, dosbarthu a defnyddio'r cyfryngau;
- sut mae cynulleidfaoedd/defnyddwyr gwahanol yn ymateb i gynhyrchion a phrosesau'r cyfryngau ac yn rhyngweithio â hwy;
- cynhyrchion, cysyniadau a chyd-destunau'r cyfryngau, er mwyn llywio eu gwaith cynhyrchu ymarferol;
- technolegau'r cyfryngau.

Fel rhan o'n hymgyngoriad, gwnaethom ofyn y canlynol:

C2: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno â'r gofynion gwybodaeth a dealltwriaeth arfaethedig ar gyfer y cymhwyster TGAU newydd mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru?

Fel y dangosir yn Siart 2 isod, roedd pawb a ymatebodd i gwestiwn 1 yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gofynion gwybodaeth a dealltwriaeth arfaethedig.

Siart 2. Ymatebion i gwestiwn 2 yr ymgynghoriad ar TGAU Astudio'r Cyfryngau.



Yn dilyn yr ymgynghoriad, gwnaethom nifer o fân ddiwygiadau i eiriad yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth er mwyn gwella eglurder. Felly, mae'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a adlewyrchir yn y *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Astudio'r Cyfryngau* fel a ganlyn:

- 3.1. iaith y cyfryngau: mae ffurfiau, codau a chonfensiynau yn creu ystyron;
- 3.2. portreadu gan y cyfryngau: sut mae'r cyfryngau yn cyfleu digwyddiadau, materion, unigolion a grwpiau cymdeithasol;
- 3.3. diwydiannau'r cyfryngau: dosbarthu a defnyddio, gan gynnwys y cyfryngau yng Nghymru;
- 3.4. cynulleidfaoedd y cyfryngau: sut mae defnyddwyr yn ymateb i gynhyrchion a phrosesau'r cyfryngau ac yn rhyngweithio â hwy.
-

Ffuriau ar y Cyfryngau

Gwnaethom gynnig y dylai'r fanyleb TGAU newydd ar gyfer Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru ei gwneud yn ofynnol i bob dysgwr astudio pob un o'r ffurfiau ar y cyfryngau a restrir isod a, lle y bo'n briodol, y dylid cynnwys safbwynt Cymreig wrth astudio.


- teledu
- ffilm
- radio
- papurau newydd
- cylchgronau
- hysbysebu a marchnata
- cyfryngau ar-lein, cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau cyfranogol
- gemau fideo
- fideos cerddoriaeth

Mewn perthynas â ffurfiau ar y cyfryngau, gwnaethom ofyn y canlynol:

C3a: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno y dylid ei gwneud hi'n ofynnol i ddysgwyr astudio'r holl ffurfiau arfaethedig ar y cyfryngau drwy gydol eu hastudiaethau?

Fel y dangosir yn Siart 3 isod, roedd y rhan fwyaf (80%) o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, gyda'r ymatebwyr eraill (20%) yn anghytuno'n gryf.

Siart 3. Ymatebion i gwestiwn 3a yr ymgynghoriad ar TGAU Astudio'r Cyfryngau.



- O blith yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, nododd un ymatebwr ei fod yn "ymdrin â sbectrwm eang".
- Nododd un ymatebwr a oedd yn anghytuno'n gryf "Credaf y byddai amser yn broblem pe byddai'n rhaid i ni astudio pob un o'r rhain yn fanwl, yn enwedig o ystyried baich ychwanegol cynnwys safbwynt Cymreig. Byddai'n well dewis pedwar o'r rhestr. Byddai ymdrin â phob un yn broses arwynebol. Byddai'n well ymdrin â llai ohonynt yn fanylach".


Yn dilyn yr ymgynghoriad, rydym wedi penderfynu dileu 'cyfryngau ar-lein, cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau cyfranogol' o'r rhestr o ffurfiau gofynnol gan eu bod yn llwyfan i nifer o'r ffurfiau eraill a ragnodir. Adlewyrchir hyn yn y ddogfen gyhoeddus *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Astudio'r Cyfryngau (2016)*.

Mewn perthynas â safbwynt Cymreig o fewn ffurfiau ar y cyfryngau, gwnaethom ofyn y canlynol:

C3b: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno y dylai'r ffurfiau ar y cyfryngau gynnwys safbwynt Cymreig lle y bo'n briodol?

Fel y dangosir yn Siart 4 isod, roedd y rhan fwyaf (60%) o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, ac roedd 40% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Siart 4. Ymatebion i gwestiwn 3b yr ymgynghoriad ar TGAU Astudio'r Cyfryngau.



- O blith yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cynnig, nododd ymatebwyr y canlynol:
 - "Mae astudio'r cyfryngau yn golygu astudio cyfathrebu ar bob ffurf a dylai hyn gynnig cyfle i'r dysgwyr ystyried y cyfryngau yn gyffredinol yn hytrach na fesul rhanbarth bach"
 - "O safbwynt amser ac ymarferoldeb, rwyf o'r farn y dylai athrawon ddewis dwy ffurf ar y cyfryngau i gynnwys safbwynt Cymreig".

Mae'r ddogfen gyhoeddedig *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Astudio'r Cyfryngau (2016)* yn adlewyrchu'r cynnig a barn y rhan fwyaf o ymatebwyr.

Cynhyrchion y Cyfryngau


Gwnaethom gynnig y dylai'r cymhwyster TGAU diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr astudio o leiaf un ffurf sain/gweledol, un ffurf print ac un ffurf ar-lein ar y cyfryngau yn fanwl drwy gynhyrchion y cyfryngau cyferbyniol a bennwyd gan y corff dyfarnu.

Mewn perthynas â chynhyrchion y cyfryngau, gwnaethom ofyn y canlynol:

C4a: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno y dylai cynnwys pwnc TGAU Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru gynnwys cynhyrchion gosod ac astudio o leiaf un ffurf sain/gweledol, un ffurf print ac un ffurf ar-lein ar y cyfryngau yn fanwl?

Dengys Siart 5 isod fod pawb a ymatebodd i gwestiwn 4a yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig.

Siart 5. Ymatebion i gwestiwn 4a yr ymgynghoriad ar TGAU Astudio'r Cyfryngau.




Yn dilyn yr ymgynghoriad, rydym wedi penderfynu bod yn rhaid ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr astudio tair ffurf gyferbyniol ar y cyfryngau yn fanwl. Ar gyfer un o'r ffurfiau hyn, rhaid i gynnyrch y cyfryngau gael ei bennu gan y corff dyfarnu. Adlewyrchir hyn yn y ddogfen *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Astudio'r Cyfryngau (2016)*.

Mewn perthynas â chynhyrchion y cyfryngau, gwnaethom hefyd ofyn y canlynol:

C4b: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno y dylai TGAU Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru gynnwys y gofyniad bod cynhyrchion y cyfryngau yn cynnwys amrywiaeth o strwythurau, ffurfiau, cyfnodau hanesyddol a chynulleidfaoedd bwriadedig?

Fel y dangosir yn Siart 6 isod, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr (75%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, ac roedd gweddill yr ymatebwyr (25%) yn anghytuno'n gryf.

Siart 6. Ymatebion i gwestiwn 4b yr ymgynghoriad ar TGAU Astudio'r Cyfryngau.



- Nododd un ymatebwr a oedd yn anghytuno'n gryf â'r cynnig ei fod o'r farn "y dylai astudio'r cyfryngau ganolbwyntio ar elfennau mwy cyfoes na hanesyddol...Dylai astudio'r cyfryngau ganolbwyntio ar gynulleidfa, genre, portreadu a naratif".


Mae'r ddogfen gyhoeddedig *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Astudio'r Cyfryngau (2016)* yn adlewyrchu'r cynnig a barn y rhan fwyaf o ymatebwyr.

Mewn perthynas â chynhyrchion y cyfryngau, gwnaethom hefyd ofyn y canlynol:

C4c: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno y dylai TGAU Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru gynnwys y gofyniad bod o leiaf un cynnyrch cyfrwng Cymraeg ac un cynnyrch cyfrwng Saesneg yn cael ei astudio?

Fel y dangosir yn Siart 7 isod, roedd 50% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig ac roedd 50% yn anghytuno'n gryf.

Siart 7. Ymatebion i gwestiwn 4c yr ymgynghoriad ar TGAU Astudio'r Cyfryngau.



- O blith yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno'n gryf â'r cynnig, nododd ymatebwyr y canlynol:
 - byddai'n "achosi problemau" a byddai "cynnyrch ongl Gymreig" yn fwy priodol o bosibl.
 - "byddai dosbarthiadau yn ei chael hi'n anodd astudio testun Cymraeg ar y cyfryngau ac yn digalonni".

Mae'r ddogfen gyhoeddedig *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Astudio'r Cyfryngau (2016)* yn adlewyrchu'r cynnig a barn y rhan fwyaf o ymatebwyr.

Sgiliau

Cynigiwyd gennym fod yn rhaid i bob manyleb ar gyfer TGAU Astudio'r Cyfryngau ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr feithrin y gallu i wneud y canlynol:


- dadansoddi testunau/pynciau'r cyfryngau, ac ymateb iddynt, gan ddefnyddio cysyniadau a therminoleg allweddol y cyfryngau;
- ymchwilio i gynhyrchion y cyfryngau, eu cynllunio a'u creu a gwerthuso'r cynhyrchion a'r prosesau hynny;
- cyflwyno syniadau a dadleuon gyda thystiolaeth i'w hategu.

Fel rhan o'n hymgyngoriad, gwnaethom ofyn y canlynol:

C5: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno y dylai TGAU Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru gynnwys yr un gofyniad o ran sgiliau a geir yn y fanyleb bresennol?

Fel y nodir yn Siart 8 isod, roedd pob ymatebwr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig.

Siart 8. Ymatebion i gwestiwn 5 yr ymgynghoriad ar TGAU Astudio'r Cyfryngau.



Yn dilyn yr ymgynghoriad, rydym wedi gwneud mân ddiwygiad i'r gofynion o ran sgiliau, fel a ganlyn:

10.1 Defnyddiwyd yr ymadrodd 'cynhyrchion/pynciau'r cyfryngau2' yn lle 'testunau/pynciau'r cyfryngau'.

Ychwanegwyd:

10.4. defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gynhyrchion a chysyniadau'r cyfryngau a llywio eu gwaith cynhyrchu ymarferol.

Mae'r ddogfen gyhoeddedig *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Astudio'r Cyfryngau (2016)* yn adlewyrchu'r cynnig a barn y rhan fwyaf o ymatebwyr.

Amcanion asesu

Rydym yn cynnig yr amcanion asesu a'r pwysoliadau canlynol ar gyfer y cymhwyster TGAU diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru:

Yn dilyn yr ymgynghoriad, ac i gynorthwyo'r dasg o'i ddeall, rydym wedi ychwanegu pwyntiau eglurhad ar gyfer yr amcanion asesu ac wedi tynnu cyfeiriadau at 'fframwaith cysyniadol' o astudiaethau'r cyfryngau, a'u disodli â 'cysyniadau allweddol' astudiaethau'r cyfryngau. Mae'r amcanion asesu wedi'u diwygio fel a ganlyn:

Amcan	Gofynion	Pwysoliadau
AA1	Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau allweddol astudiaethau'r cyfryngau	30%
AA2	Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau allweddol astudiaethau'r cyfryngau er mwyn gwneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none">• dadansoddi cynnyrch y cyfryngau• gwerthuso eu gwaith ymarferol eu hunain.	35%
AA3	Ymchwilio i gynnyrch y cyfryngau, ei ddatblygu a'i greu ar gyfer cynulleidfa fwriadedig, drwy gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau astudiaethau'r cyfryngau er mwyn cyfleu ystyr.	35%


Adlewyrchir yr amcanion asesu a'r pwysoliadau diwygiedig yn y ddogfen gyhoeddedig *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Astudiaethau'r Cyfryngau (2016)*¹

Fel rhan o'n hymgynghoriad, gwnaethom ofyn y canlynol:

C6: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno y dylid mabwysiadu'r amcanion asesu arfaethedig ar gyfer manylebau TGAU Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru?

Dengys Siart 9 isod fod pawb a ymatebodd i gwestiwn 6 yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r amcanion asesu arfaethedig.

Siart 9. Ymatebion i gwestiwn 6 yr ymgynghoriad ar TGAU Astudio'r Cyfryngau.



Adlewyrchir yr amcanion asesu a'r pwysoliadau arfaethedig yn y ddogfen gyhoeddedig *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Astudio'r Cyfryngau (2016)*¹

Asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau


Gwnaethom gynnig y dylai asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau gyfrif am 40% o'r trefniadau cyffredinol ar gyfer asesu'r cymhwyster TGAU newydd mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru.

Fel rhan o'n hymgyngoriad, gwnaethom ofyn y canlynol:

C7: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno â'r pwysoliadau arfaethedig ar gyfer asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau ar gyfer y cymhwyster TGAU mewn Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru?

Fel y dangosir yn Siart 10 isod, roedd 75% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig ac roedd y 25% o ymatebwyr a oedd yn weddill yn anghytuno.

Siart 10. Ymatebion i gwestiwn 7 yr ymgynghoriad ar TGAU Astudio'r Cyfryngau.



- Nododd ymatebwr a oedd yn anghytuno â'r cynnig bod angen rhoi "Mwy o bwyslais ar waith cwrs ar adegau gan fod hynny'n rhoi cyfle i setiau sgiliau ddatblygu ac yn caniatáu dull aml-synhwraidd o ddysgu".

Adlewyrchir y pwysoliadau arfaethedig ar gyfer asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau yn y ddogfen gyhoeddus *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Astudio'r Cyfryngau*.

Gofynion o ran asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau

Gwnaethom gynnig y gofynion canlynol ar gyfer elfen asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau'r cymhwyster TGAU diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau:

Cymhwyster	Gofynion arfaethedig i Gymru
------------	------------------------------


TGAU	Un cynhyrchiad cyfryngol, a chaiff gwaith ymchwil, datblygu a myfyrio'r unigolyn ei asesu, gan gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o iaith y cyfryngau a dulliau portreadu yn y cyfryngau. Caiff briffiau eu pennu gan y corff dyfarnu a'u hadolygu bob blwyddyn.
------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Mewn perthynas â'r gofynion ar gyfer asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau, gwnaethom ofyn y canlynol:

C8a: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno â'r gofynion arfaethedig ar gyfer asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau ar gyfer y cymhwyster TGAU Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru?

Dengys Siart 11 isod fod 75% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, gyda'r 25% sy'n weddill yn anghytuno.

Siart 11. Ymatebion i gwestiwn 8a yr ymgynghoriad ar TGAU Astudio'r Cyfryngau.



- O blith yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, nododd un fod "gwaith grŵp yn hanfodol ac yn adlewyrchu arferion y diwydiant".
- Nododd ymatebwr a oedd yn anghytuno â'r cynnig "ei bod yn fwy buddiol i'r dysgwyr a'r staff addysgu allu penderfynu ar y briff ar gyfer y dasg cynhyrchiad cyfryngol bob blwyddyn. Felly, gellir defnyddio arbenigedd yr athro yn hytrach na ffocws astudio newydd bob blwyddyn sy'n arwain at ddeilliannau gwahanol iawn i ddysgwyr".


Mae'r ddogfen gyhoeddedig *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Astudio'r Cyfryngau (2016)*¹ yn adlewyrchu'r cynnig a barn y rhan fwyaf o ymatebwyr.

Mewn perthynas ag asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau, gwnaethom hefyd ofyn y canlynol:

C8b: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno y gall y cynhyrchiad cyfryngol fod yn dasg unigol neu'n dasg grŵp ar gyfer cymhwyster TGAU Astudio'r Cyfryngau yng Nghymru?

Fel y dangosir yn Siart 12 isod, roedd 50% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig ond roedd 50% o ymatebwyr yn anghytuno'n gryf.

Siart 12. Ymatebion i gwestiwn 8b yr ymgynghoriad ar TGAU Astudio'r Cyfryngau.



- O blith yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno'n gryf â'r cynnig, nododd ymatebwyr y canlynol:
 - "Credaf y dylid pennu tasg unigol lle y caiff ymdrech, dealltwriaeth a gallu'r dysgwr eu graddio".
 - "Mae gwaith grŵp yn hwyluso sgiliau hollbwysig sydd eu hangen yn ein diwydiant".

Rydym wedi penderfynu y gall y cynhyrchiad cyfryngol fod yn dasg unigol neu'n dasg grŵp. Adlewyrchir hyn yn y ddogfen *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Astudio'r Cyfryngau (2016)*.

Haenu


Cynigiwn na fydd y cymhwyster TGAU diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau yn gymhwyster haenog.

Fel rhan o'n hymgyngoriad, gwnaethom ofyn y canlynol:

C9: I ba raddau rydych yn cytuno/anghytuno â'r cynnig na fydd y cymhwyster TGAU Astudio'r Cyfryngau yn gymhwyster haenog?

Fel y dangosir yn Siart 13 isod, roedd y rhan fwyaf (75%) o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig na fydd TGAU Astudio'r Cyfryngau yn gymhwyster haenog, ac roedd y gweddill (25%) yn anghytuno.

Siart 13. Ymatebion i gwestiwn 9 yr ymgyngoriad ar TGAU Astudio'r Cyfryngau.



Mae'r ddogfen gyhoeddedig *Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Astudio'r Cyfryngau (2016)* yn adlewyrchu'r cynnig a barn y rhan fwyaf o ymatebwyr.

Cymorth ac Adnoddau

Ym mhob un o'n hymgyngoriadau, gwnaethom ofyn y cwestiwn canlynol i ymatebwyr:

Pa gymorth ac adnoddau y gall fod eu hangen ar ganolfannau ac athrawon er mwyn bod mor barod â phosibl i gyflwyno'r fanyleb ddiwygiedig yn eich barn chi? Rhowch sylwadau

Ymhlith pethau eraill, tynnodd y rheini a ymatebodd i'r cwestiwn hwn sylw at y canlynol:

- yr angen i ddarparu gwerslyfrau ac adnoddau ar-lein,
- hyfforddiant HMS a digwyddiadau DPP wedi'u trefnu'n ganolog,
- yr angen i sicrhau bod mwy o amrywiaeth o ddeunyddiau asesu enghreifftiol ac atebion enghreifftiol ar gael

Byddwn yn rhannu'r pwyntiau a godwyd â'r corff dyfarnu, consortia a Llywodraeth Cymru.

Yr effaith ar unigolion â nodweddion gwarchoddedig

Ym mhob un o'n hymgyngoriadau, gwnaethom ofyn y cwestiwn canlynol i ymatebwyr:

Nodwch isod a allai unrhyw ran o'r cynnig hwn gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar unigolion â nodweddion gwarchoddedig a ph'un a fyddai unrhyw ran o'r cynnig yn peri problemau o ran hygyrchedd i ddysgwyr yng Nghymru.

Ar gyfer yr ymgynghoriad ar y cymhwyster TGAU diwygiedig mewn Astudio'r Cyfryngau, ni thynnodd unrhyw ymatebwyr sylw at unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol ar unigolion â nodweddion gwarchoddedig penodol.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Ymholiadau
Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Lôn Pencarn
Parc Imperial
Coedcernyw
Casnewydd
NP10 8AR

Ymholiadau@cymwysteraucymru.org